



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Ariannwyd gan Cyswllt Ffermio drwy'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Gwasanaethau Cyngori fan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru -Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 -2020

William Scale

Y Ffindir a Ffrainc

Ffermio Heb Drin Tir ac Amaethyddiaeth Adfywiol

Gorffennaf 2019 a Rhagfyr 2019

1 Cefndir

Rydw i'n ffermio yn Sir Benfro, ac rwyf wedi bod yn defnyddio technegau ffermio heb drin y tir am dros 15 mlynedd ar y fferm. Mae wedi esblygu i ddenu mwy o ddylanwadau Amaethyddiaeth Adfywiol yn ogystal (megis canfod 'diffygion' amgylcheddol yn y system gynhyrchu, adeiladu priddoedd, datblygu gwytnwch i ymdrin â'r tywydd a phrisiau ayb.) Rydw i bob amser yn meddwl sut i'w wella; sut i gael mwy o lai.

Rydw i'n tyfu cnydau blynyddol a lluosflwydd gan ddefnyddio technegau heb drin y tir am resymau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Roeddwn i eisiau dysgu mwy ynglŷn â sut mae'r technegau Ewropeaidd gorau'n gallu mynd â ni tu hwnt i ddulliau 'cynaliadwy', a sut y gallwn edrych ar dechnegau mwy adfywiol. Wedi'r cyfan, beth yw pwrpas edrych ar gynnal technegau amaethyddol na fydd, o bosibl, yn ddigon da ar gyfer y dyfodol? Y cam nesaf yw gwneud ein fferm yn fwy adfywiol yn hytrach na cheisio cadw'r hyn sydd gennym yn unig. Roeddwn i eisiau datblygu technegau a gwybodaeth a fydd yn fy ngalluogi i fod yn fwy cystadleuol ac effeithlon (ond nid ar draul yr amgylchedd) ac i weld sut y gellid datblygu cnydau y gellir eu combeinio a thechnegau tyfu cnydau blynyddol a'u gwella h.y. cynhyrchu mwy o fwyd, mwy o fywyd gwyllt, amsugno mwy o garbon, ac i adeiladu priddoedd sy'n gallu amsugno dŵr yn well ayb.

Mae rhai technegau'n ymwneud â ffermio heb drin tir ayb yn gallu bod yn anodd eu hymchwilio. Mae'r we wedi bod yn wych, ond gan ei fod yn ymwneud yn aml ag arbed arian, ac nad oes gan bobl unrhyw beth i'w werthu fel y cyfryw, mae'r wybodaeth orau i'w chael drwy gyfnewid gwybodaeth rhwng ffermwyr. Felly, drwy sefyll mewn cae yn palu tyllau, gallwch weld yr hyn mae'r ffermwr yn ei weld ar ei fferm yn hytrach na darllen amdano'n

unig. Mae deall y cyd-destun yn hanfodol. Er enghraifft, fe wnes i ddeall llawer mwy am gryfderau a gwendidau tyfu cnydau gorchudd drwy gymharu a chyferbynnu rhwng y ddwy wlad y bûm yn ymweld â nhw.

Dewisais deithio i'r Ffindir ac i Ffrainc.

Y Ffindir gan fod amaethyddiaeth tir âr y wlad yn ymylol i ryw raddau, felly mewn ffordd, mae angen iddynt fod yn arloesol pan fo pethau'n anoddach. Hefyd, mae'r ffermydd yn rhai o faint teuluol, ac mae'r wlad yn cynnwys y canran uchaf o ffermio heb drin tir yn Ewrop, sef oddeutu 10-12% o'r holl dir. Roedd ganddynt hefyd safle ffermio heb drin tir sydd wedi bod yn weithredol ers dros 20 mlynedd, ac roedd hyn yn wybodaeth ddefnyddiol iawn i mi.

Fe wnes i ddewis ymweld â Ffrainc oherwydd y ffocws ar gnydau gorchudd dwys ers mwyn adeiladu priddoedd. O ran hinsawdd, mae'n debycach i Gymru na'r Ffindir i raddau o ganlyniad i lai o rew caled, ond ar y llaw arall, mae eu tymor tyfu'n fyrrach ac maent yn gorfod ymdopi gyda chyfnodau poeth iawn.

Roeddwn i'n teimlo bod digon o wahaniaethau rhwng y ddwy wlad i greu prosiect da, ac roedd gen i ddiddordeb hefyd mewn dysgu sut mae'r ffermwyr yn datblygu eu syniadau a'u technegau rheoli ac yn addasu i newid, gan fod gen i ddiddordeb gwybod yn union sut fath o bridd, tywydd, prisiau a lefelau cefnogaeth sydd ganddynt.

Roeddwn i'n chwilio am ysbrydoliaeth a dealltwriaeth i wella fy ngwybodaeth ymarferol a thechnegol ymhellach.

2 Amserlen

Cyn yr ymweliad, roeddwn i braidd yn bryderus ei bod hi'n ymddangos nad oeddwn i wedi cynllunio cymaint ag oeddwn i'n ei ddymuno at yr wythnos, ac fe wnaeth pryderon am fynd i'r afael ag iaith anghyfarwydd wneud i mi ystyried faint o amser y buaswn i'n ei dreulio ar fy mhen fy hun mewn sawna yn hytrach na chyflawni diben yr ymarfer, sef dysgu am ffermio heb drin tir ac amaethyddiaeth adfywiol yn y Ffindir.

Mae hedfan i mewn i Helsinki ar ddiwrnod o haf yn cynnig cipolwg diddorol o'r awyr i chi o'r hyn sy'n nodweddiadol o rannau helaeth o'r wlad. Mae'n wlad sydd wedi'i britho gan lynnoedd a cheir coedwigoedd ym mhobman. Mae bron iawn fel pe bai oes yr îa newydd gilio'n anfodlon ac wedi gadael miloedd o lynnoedd siâp deigr yn wrth i'r coed conwydd dwys a helaeth orchuddio gweddill y wlad. I ddieithryn, mae'n teimlo bron iawn fel tir preifat y gellir mynd yno 'trwy wahoddiad yn unig'.

Yn wir, yn hanesyddol, mae'r Ffiniaid yn genedl wylaidd iawn. Mewn sawl ffordd, maent yn dal i geisio canfod eu hunaniaeth oherwydd mae'r wlad wedi bod yn rhan o Sweden a Rwsia yn y gorffennol. Er nad yw atgofion am y rhyfel cartref, pan oedd teuluoedd wedi'u rhannu, yn fyw yn y cof erbyn hyn, mae hyn heb os yn graith ar hanes modern y wlad. Breuddwyd wylaidd y Ffiniaid yn hanesyddol oedd gallu bod yn berchen ar dŷ ger y llyn a chael preifatrwydd i fwynhau natur, tawelwch ac awyr iach, a thorri rhywfaint o goed mae'n debyg! Fodd bynnag, efallai bod cyfuniad o'r grefydd Lwtheraidd, arwahanrwydd eu hiaith ac agwedd y Ffiniaid at addysg, lles

a rhesymoliaeth wedi creu cymdeithas ac economi sy'n dal yn stoicaidd ac yn draddodiadol, ond sydd hefyd yn allblyg, yn gydweithredol a pharchus, ac yn awyddus o safbwynt ei dyfodol gwleidyddol i gysylltu a chyfeirio ei sylw tuag at y Gorllewin i gyfeiriad Ewrop, yn hytrach nag i gyfeiriad Rwsia yn y Dwyrain.

Fy mhrif gyswllt yn ystod yr wythnos oedd Mr Jussi Knaapi; ni allwn i ddychmygu cwrdd â gŵr bonheddig mwy croesawgar. Roedd Jussi yn garedig, yn ffraeth ac yn eithriadol o wybodus, ac fe wnaeth ddangos cymaint ag y gallai i mi o'r hyn yr oeddwn i'n dymuno'i weld a'r hyn y credai y dylwn i ei weld. Oherwydd y pellteroedd enfawr yr oedd angen eu teithio (ceir poblogaeth fechan mewn gwlad sy'n dal i fod yn faith ac yn wag), fe wnaethom ni hefyd dreulio llawer o amser yn y car yn sgwrsio, ac yn ogystal â chynyddu fy ngwybodaeth am amaethyddiaeth yn y Ffindir, roedd Jussi yn drysorfa o wybodaeth am bethau eraill hefyd: hanes tractorau Valmet, Rhyfel Cartref y Ffindir, y llywodraeth yn gwerthu cwmni Kemira Fertilisers, gwladwriaeth les enwog y Ffindir a phrif ddiod y Ffindir (jîn a sudd grawnffrwyth), i enwi ychydig ohonynt yn unig. Fe wnaethom ni dreulio pum diwrnod yn teithio yn ne orllewin y Ffindir, yn ymweld â ffermydd, gorsafoedd ymchwil a busnesau.

Mae Jussi Knaapi yn ffermwr rhan amser ac yn un o newyddiadurwyr "Koneviesti", cylchgrawn amaethyddol hynod o boblogaidd sy'n cael ei gyhoeddi yn y Ffindir. Ond mae gan Jussi feddwl chwilfrydig a chlust am stori dda, a bydd yn teithio llawer ac yn ymgysylltu'n helaeth â'r byd amaethyddol ehangach.

Y Daith

Nid yw'r Ffindir yn enwog am gynhyrchu cnydau â'r, ond o fy safbwynt i, fel ffermwr sy'n tyfu cnydau heb unrhyw drin tir ers 15 mlynedd, roedd yn fwy diddorol ymweld â'r Ffindir nag ymweld â busnes ffermio ar raddfa fawr sy'n amaethu miloedd o hectarau o dir ar ryw wastatir llifwaddodol yn nwyrain Ewrop. Ar y cyfan, mae pethau'n dal i ddigwydd ar raddfa ddynol neu deuluol yno. Nid yw ffermydd yn fawr; ar y cyfan, maent yn dal i gael eu rhedeg gan deuluoedd, ac mae'r rhan fwyaf o ffermwyr wedi arallgyfeirio neu mae ganddynt waith oddi allan i'r fferm. Mae hyn yn neilltuol o berthnasol i Gymru wrth i ni edrych tuag at ddyfodol ble mae'n ymddangos ein bod ni, o safbwynt gwleidyddol, yn dymuno cynnal ffermydd y mae eu maint yn eu gwneud yn addas i'w hamaethu gan deuluoedd oherwydd rhesymau diwylliannol, yn ogystal â'r ffaith bod ein holl nwyddau fwy neu lai yn cael eu gwerthu am bris sydd fymryn yn fwy neu lai na chost cynhyrchu. Mae costau economi'r Ffiniaid hyd yn oed yn uwch na'r sefyllfa yn y DU, felly mae'r angen i gystadlu yr un mor berthnasol. Sut allwn ni lwyddo i wneud hynny?

Tyfir cnydau â'r y Ffindir yn y gwanwyn yn bennaf, oherwydd y gaeafau oer. Mae'r Ffindir yn dueddol o fod yn sych yn ystod yr haf hefyd, ac er bod y tymor tyfu yn fyr o safbwynt diwrnodau calendr, mae'n cynnig y fantais o ddiwrnodau â chyfnod hir o olau dydd; yng Ngorffennaf, am 10:30yh, yr oedd hi'n teimlo fel diwedd y prynhawn. Bydd holl blanhigion y cnydau yn mwynhau'r golau dydd ychwanegol hwnnw.

Byddai'r dull traddodiadol o dyfu cnydau yn y Ffindir fwy neu lai yr un peth â'r hyn sy'n draddodiadol yn Ewrop - trin y tir a'i drin yn ddwfn, gadael i'r tywydd wneud ei waith, ac yna, hau'r had ym mis Ebrill pan fydd y tywydd yn cynhesu. Yn achos y rhan fwyaf o ffermydd, dyma'r drefn o hyd, ond yn y 1970au, fe wnaeth Mr Esa Eela (a ddisgrifir fel tad amaethu heb drin tir

yn y Ffindir) fewnforio drill Massey Ferguson 30, a chychwynnodd arbrofi â lleihau dwyster trin tir. Roedd y rhesymau yn ymwneud â chostau ac er mwyn gwella cyflwr y pridd. Roedd ganddo rywfaint o ddilynwyr, a bu rhywfaint o gyswllt rhwng Mr Eela a ffermwyr yn y DU oedd hefyd wedi arbrofi â'r dechneg. O ganlyniad i'r gwaharddiad ar losgi gwellt, fe wnaeth poblogrwydd amaethu heb drin tir (neu hau'n uniongyrchol, fel y'i gelwid bryd hynny) ddirywio yn y DU - i raddau helaeth oherwydd mynychder cnydau sy'n cael eu tyfu dros y gaeaf a'r cyfansymiau mawr o wellt a gynhyrchir gan y system, ond yn y Ffindir, parhaodd i fod yn dechneg boblogaidd, heb ddod yn rhan o ffermio prif ffrwd. O ganlyniad, mae gan y Ffindir y ganran uchaf o dir heb ei drin yn Ewrop, oddeutu 200,000 ha fwy neu lai. Felly, gan ystyried y profiad cyfunol sydd gan y ffermwyr, roeddwn i'n dymuno canfod beth yw dyfodol y dechneg a sut y gellir ei gwella.

Mae'r Ffiniaid yn cael cymhorthdal am gynnal gorchudd pridd yn y gaeaf, ac mae hynny'n werth rhwng €18 a €56 yr hectar. Er ei fod yn daliad hwylus, nid yw'n cael ei ystyried yn sylweddol. Serch hynny, mae gorchudd pridd dros y gaeaf yn llesol i'r tir. Nid ydynt, fodd bynnag, yn cael taliad penodol am beidio trin tir.



*O'r chwith i'r dde: Jussi Knaapi, fi a Timo Parsinen
(un o'r rhain cyntaf i gychwyn amaethu heb drin tir)*



Mae sychu yn rhan hanfodol o dyfu cnydau yn y Ffindir ac mae'n aml yn broses ddurd iawn. Dyma sychwr cartref sy'n llosgi sglodion pren.



Ari Kautonen (uchod) yw arweinydd presennol FICA (Cymdeithas Amaethu Heb Drin Tir y Ffindir). Mae'n sefydliad sy'n ymwneud yn benodol â hyrwyddo technegau amaethu heb drin tir ac amaethyddiaeth adfywiol, ac mae'n rhan o grŵp ymbarél ECAF, sef Ffederasiwn Amaethu Cadwraethol Ewrop; mae'n bodoli er mwyn lledaenu arferion amaethu heb drin tir a chaniatáu i ffermwyr rwydweithio. Arferai Ari gynhyrchu'r dril mwyaf poblogaidd ar gyfer amaethu heb drin tir yn y Ffindir, sef y Viskean Metalli (VM). Erbyn hyn, mae wedi gwerthu'r hawl i'r ddyfais i gwmni arall. Roedd y dril yn boblogaidd iawn a gwerthwyd dros 1,000 o unedau mewn 10 mlynedd. Roedd yn arwyddocaol bod gan y rhan fwyaf o ffermwyr y gwnes i ymweld â hwy ddril VM, ac roedd gan lawer ohonynt eu dril gwreiddiol. Fe wnaiff peiriannau da bara am byth, ac mae hynny'n wers bwysig i ffermwyr sy'n amaethu heb drin tir; gallwch ddefnyddio'r driliau hyn dro ar ôl tro a pharhau i'w hailadeiladu (nid yw hynny'n newyddion mor dda i wneuthurwyr). Bellach, mae Dometal yn cynhyrchu fersiwn o ddril VM.

Y Safle yn Loimaa



Jussi Knaapi yn esbonio amaethu heb drin tir a dal a storio carbon wrth gynulleidfa rhaglen teledu yn y Ffindir

Diben y safle yn Loimaa yw arbrofi ag amaethu heb drin tir ac mae'n rhedeg ers dros 15 mlynedd. I mi, roedd hwn yn adnodd hynod o bwysig, a bob blwyddyn, bydd y safle yn gwneud sawl cymhariaeth o gyfanswm cynydu yn deillio o amaethu heb drin tir o gymharu ag amaethu sy'n trin tir, ond mae'n raddol yn rhoi'r gorau i wneud y gymhariaeth honno oherwydd bydd amaethu heb drin tir yn cynhyrchu mwy o gnwd yn gyson. Mae'r Ffindir yn tueddu i fod yn sych ar waethaf y lefel trwythiad cymharol uchel, ac mae amaethu heb drin tir yn golygu y caiff lefelau lleithder y pridd eu cynnal yn well. Bydd Thomas, rheolwr y safle yn Loimaa, yn monitro faint o gnwd a gynhyrchir a bydd yn rhoi cyflwyniadau am Gronni Carbon yn y pridd er mwyn gwella'r pridd. Maent yn honni eu bod yn cronni 58% yn rhagor o ddeunydd organig yn y manau ble amaethir heb drin tir. Dyma garbon y gallwch chi ei gymryd o'r CO₂ yn yr amgylchedd a'i roi yn y pridd fel deunydd organig a deunydd byw; gellir cymharu hyn â cholledion carbon mesuredig o 200kg/ha wrth drin tir.

Mae gwellt a phlanhigion marw yn pydru yn hanfodol er mwyn unioni eithafion lleithder a thymheredd yn y pridd, gan sicrhau ei fod yn gynefin mwy addas ar gyfer bioleg y pridd. Byddant hefyd yn defnyddio'r prawf Solvita yn y safle yn Loimaa, ac mae hynny'n bwysig i fesur bywydeg, cemeg a ffiseg y pridd gyda'i gilydd; yn aml iawn, byddwn yn tueddu i ddadansoddi cemeg y pridd a dim arall.



Y Prawf Solvita

Yn y safle yn Loimaa, fe wnaeth Jussi ddangos datblygiad newydd sydd â'r potensial i fesur faint o CO₂ y gall priddoedd ei allyrru, a gallai'r math hwn o arbrofi arwain at oblygiadau o ran cyfraniad amaethu heb drin tir at y drafodaeth ynghylch y newid yn yr hinsawdd. Fe wnaethom ni weld sut roedd priddoedd wedi'u trin yn allyrru mwy o CO₂ trwy gydol y diwrnod na phriddoedd heb eu trin; mae'r holl nwy yn cael ei allyrru i'r atmosffer. Mae'n ddyddiau cynnar iawn i'r math hwn o arbrawf, ond roeddem ni oll yn cytuno bod ganddo botensial. Yn ystod yr wythnos, fe wnaethom ni fesur priddoedd nifer o ffermydd i gael data.



Jussi ac Ari yn arddangos y dull o fesur allyriadau CO₂

Oherwydd hirhoedledd ac ansawdd yr ymchwil, gellid ystyried safle Loimaa fel un o'r safleoedd cyfeirio pwysicaf ar gyfer amaethu heb drin tir yn Ewrop.

Cefais y wybodaeth ganlynol trwy drafod â ffermwyr:

- Mae rhan helaeth o amaethu â'r Ffindir yn gnydau a dyfir yn y gwanwyn. Y cnydau mwyaf poblogaidd yw haidd, gwenith a cheirch, yn ogystal â rôt had olew. Ystyrir ceirch yn gnwd 'egwyl' a dyfir fel rhan o gylchdro cnydau.
- Mae cymaint o goedwigoedd yn creu rhwystr da i atal llawer o glefydau sy'n effeithio ar gnydau grawn, ac maent yn atal pryfed gleision hefyd. Mae'r hinsawdd sych a'r gaeafau oer yn golygu na wneir defnydd helaeth o ffwngleiddiaid.
- Byddant yn aml yn defnyddio DAP (Deuamoniwm Ffosffad) fel gwrtaitth 'cychwynnol' wrth blannu'n gynnar.
- Mae cadw hadau yn arfer cyffredin ar ffermydd. Ar y cyfan, byddant yn cadw hadau am bedair cenhedlaeth.
- Mae cyfanswm y cnwd yn 5-6 t/ha fwy neu lai yn achos cnydau grawn ac yn 2.5-3 t/ha yn achos rôt hadau olew a dyfir yn y gwanwyn.
- Gall cynaeafu grawn yn sych â chombein fod yn heriol. Yn aml iawn, caiff grawn ei gynaeafu â dros 25% o leithder, ac mae'n ddrud iawn i'w sychu.

Ffrainc

Yn anffodus, yn Ffrainc, fe dorrodd fy nghar i lawr ac o ganlyniad, roedd yn rhaid i mi ganslo diwrnod a hanner o ymweliadau a oedd wedi'u cynllunio i weld ffermwyr blaengar megis Frederic Remy, Sarah Singla a Cristophe da Carville. Fodd bynnag, cefais ymweld â Frederic Thomas sy'n rhedeg cylchgrawn a chlwb yn ymwneud â ffermio heb drin y tir yn Ffrainc (o'r enw BASE) ac mae ganddo brofiad helaeth o dyfu cnydau gorchudd ac adeiladu priddoedd gan ddefnyddio planhigion. Dangosodd Frederic hefyd waith garddio marchnad lysiau heb balu, rhai ffermwyr yn pori defaid mewn grwpiau mawr a thechnegau arloesol eraill i sefydlu cnydau megis tyfu India corn heb drin y tir. Gan fy mod wedi cael diwrnod mor ddefnyddiol

gyda Frederic, roedd hynny'n lleddfu rhywfaint o'r siom o fethu â chynnal yr ymweliadau eraill.

Mae Frederic yn adnabyddus ledled Ewrop am ei ddefnydd dwys o gnydau gorchudd, felly roeddwn i'n awyddus iawn i ymweld ag ef. Fodd bynnag, nid oeddwn wedi sylweddol pa mor wael oedd ei briddoedd na pha mor anodd yw'r hinsawdd yno. Roedd hyn yn pwysleisio i mi fod angen gweld rhywbeth drwy lygad y ffermwyr ei hun cyn gallu llunio barn; mae angen iddo dyfu cnydau gorchudd mor ddwys ag y mae'n ei wneud er mwyn adeiladu ei briddoedd.

Mae llawer o Gymru a'r DU yn ffodus o fod yn llawer mwy ffrwythlon na'r hyn a welais, felly ni fyddai angen i'r cnydau gorchudd fod mor ddwys.

Prif ganlyniadau:

- Gwneud y gorau o'r hyn sydd gennych. Er enghraifft, eich hinsawdd yw eich hinsawdd. Nid oes modd i chi drosglwyddo popeth y byddwch yn ei arsylwi dramor i'ch tiwedd eich hun o reidrwydd. Er enghraifft, gan fod rhew a barrug yn annatod yn y Ffindir, daeth yn adnodd allweddol er mwyn rheoli chwyn, ac mae'r gallu i gynaeafu'n gynnar bob amser yn Ffrainc yn eich galluogi i dyfu gwell cnydau gorchudd ond, rydych chi hefyd yn cynhyrchu llai.
- Mae rhai o gymdogion ffermwyr sy'n ffermio heb drin y tir yn dweud "ni fydd hynny'n gweithio yma". Thema gyfarwydd! Llwyddodd y daith i bwysleisio'r angen ar gyfer rheolaeth effeithiol; rydym ni'n edrych ar ein llwyddiannau ac yn derbyn clod, ond pan nad yw pethau'n llwyddo, mae angen i ni dderbyn bod ein systemau rheolaeth yn rhan helaeth o hynny yn hytrach na lwc.
- Mae'r cyfle ar gyfer dal a storio carbon a hybu rôl amaethyddiaeth er mwyn gwella ecosystemau dan fygythiad o ganlyniad i grwpiau materion unigol yn y ddwy wlad fel yng Nghymru. Mae'n ymddangos fod ffermwyr yn rhy brysur yn canolbwyntio ar gynhyrchiant a gwarchod y tir; nid ydym yn gwneud gwaith digon da ar gyfleu'r hyn yr ydym yn ei wneud mewn gwirionedd, y pethau newydd yr ydym yn eu treialu a pha mor llwyddiannus ydym ni dan yr amgylchiadau hynny.
- Mae ffermio heb drin y tir yn ddewis addas ar gyfer cnydau y gellir eu combeinio. Mae angen dysgu mwy am y dechneg, ond mae ganddo sawl mantais ar gyfer y pridd, yr amgylchedd a'r economi. Fodd bynnag, mae'r technegau rheoli'n wahanol.
- Rydym ni oll dan fygythiad o golli adnoddau allweddol megis glyffosad. Mae mwy o syniadau ar gael ynglŷn â sut i leihau ein defnydd, megis tyfu cnydau gorchudd dwys, ond nid i'w waredu. Byddai colli glyffosad yn gwneud ffermio heb drin y tir yn anodd iawn, a byddai dychwelyd i drin y tir yn fwy niweidiol.
- Mae angen i ni ddeall llawer mwy am botensial bioleg y pridd ar gyfer ein gofynion ffrwythlondeb. Y mwyaf y byddwn yn aflonyddu ein priddoedd, yr anoddaf y bydd i sicrhau bod bioleg y pridd yn gweithredu.

3 Camau nesaf

Ar ganol y daith astudio, roeddwn i eisoes wedi cael y cyfle i hyrwyddo ychydig o'm gwybodaeth ar ôl derbyn gwahoddiad i siarad yn nigwyddiad Groundswell yn swydd Hertford, sy'n un o'r prif ddigwyddiadau Amaethyddiaeth Adfywiol. O ganlyniad, cefais hefyd wahoddiad i siarad gyda chlybiau ffermwyr.

Llwyddodd rhan o'r daith astudio bwysleisio i mi ei bod hi'n werth parhau ar fy nhrywydd presennol o ran ffermio heb drin y tir. O ganlyniad i'r Gyfnewidfa Rheolaeth, cefais gwrdd ag ystod o ffermwyr, a sylweddolais nad yw'n ymwneud â pheiriannau, ansawdd y tir na'r hinsawdd, ond yn hytrach, mae'n ymwneud â'r ddwy fodfedd uchaf, h.y. yr ymennydd!

Sylweddolais ar rai o'r gwendidau yn fy system ar hyn o bryd, fel a ganlyn:

- Nid wyf yn defnyddio'r cnydau gorchudd yn ddigon dwys; bydd parhau i dyfu rhywbeth yn y ddaear yn amsugno mwy o garbon ac yn cau'r chwyn allan. Ond hefyd, ni ddylid mynd dros ben llestri gyda'r cnydau - dylech dderbyn eu cyfyngiadau. Cnydau gorchudd yw'r paneli solar ar gyfer cyfnodau pan nad yw'r pridd yn cynhyrchu cnydau am arian.
- Mae angen i mi feddwl mwy am wneud y gorau o'm cylchdro cnydau ac ychwanegu mwy o amrywiaeth. Gallai hyn fod o fudd er mwyn lleihau fy mewnbynnau gwrtaith cemegol. Gallaf weld rhywfaint o botensial ar gyfer lleihau rhai o'r chwynladdwyr yn fy nghylchdro gydag ychydig o feddwl yn strategol.
- Rydw i eisoes yn hyrwyddo ychydig o'r hyn rydw i'n ei wneud ar fy fferm, ond rwy'n credu bod angen i mi wneud mwy o ymdrech i ymuno â'r drafodaeth gyhoeddus am yr hyn yr ydym ni eisiau ei gael o amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae materion megis ail-wylltio, feganiaeth, erydiad pridd, dal a storio carbon, glyffosad, a meta gynhyrchu'n bethau yr wyf yn ystyried yn wybodus yn eu cylch, ac rwy'n credu fy mod ar y cyfnod yn y busnes lle dylwn i fod yn ystyried darparu ychydig o arweiniad ar y materion hyn i gydbwysu'r dadleuon. Rwy'n ystyried sefydlu gwefan am hyn.

4 Prif negeseuon i'r diwydiant

1. Mae ffermio heb drin y tir yn dal i fod yn gysyniad o fudd i bawb gan ddefnyddio ychydig iawn o dechnoleg sy'n gallu helpu i ddiogelu ein priddoedd rhag erydiad. Mae'n bosibl nad yw mor boblogaidd yng Nghymru gyda'n hardaloedd llai o ran cnydau; fodd bynnag, mae'r cysyniad yn dal yn berthnasol.
2. Mae'n debyg nad oes wir angen cefnogaeth grant ar ffermwyr, nac ychwaith cefnogaeth gymorthdaledig i ffermio heb drin y tir, ond os ydym ni'n darparu nwyddau cyhoeddus, dylid cydnabod hynny mewn rhyw ffordd.
3. Mae glyffosad dan fygythiad sylweddol am resymau athronyddol yn hytrach na gwyddonol yn y DU. Mae'n cael ei neilltuo'n annheg a byddai colli glyffosad yn dinistrio'r dechneg bresennol ar gyfer ffermio heb drin y tir. Rydym ni'n derbyn yr

angen i ddefnyddio llai ohono gan ein bod yn dibynnu ar “un” adnodd, ond mae angen cefnogaeth er mwyn datblygu opsiwn arall.

4. Y cnwd gorchudd gorau yng Nghymru yw glaswellt! Ond mae angen i ni barhau i dyfu grawn ar gyfer porthiant y gaeaf, gwellt, bwyd ar gyfer bodau dynol ayb, felly mae angen i ni geisio gwneud hyn mewn modd yr un mor gyfrifol ag erioed.
5. Gallwn gyflawni nifer sylweddol o’n nodau cadwraeth o ran ardaloedd ar ffermydd lle gall adar chwilota am fwyd gyda systemau ffermio heb drin y tir. Mae’n gallu storio carbon, lleihau neu waredu erydiad, ac mae’n isel o ran costau a buddsoddiad. Mae angen cefnogaeth.